Dalen Ffeithiau 1 – Newidiadau cyffredinol i Gymhorthdal Incwm ar gyfer rhieni unigol o fis Hydref 2010

Beth yw'r newidiadau?

Os ydych yn rhiant unigol â phlant oedran ysgol, efallai na fydd gennych hawl i Gymhorthdal Incwm. Mae hwn yn un o sawl newid i'r system fudd-daliadau i'ch helpu i ddatblygu'r sgiliau ar gyfer gwaith a symud i mewn i waith â thâl.

Sut y bydd hyn yn effeithio arnaf?

Os yw eich plentyn **ieuengaf** yn **7** oed neu'n hŷn, gall eich Cymhorthdal Incwm ddod i ben os ydych **ond yn ei hawlio** gan eich bod yn rhiant unigol. Yn hytrach, gyda'n cymorth, **bydd yn rhaid i chi chwilio am waith â thâl a gwneud cais am fudd-dal arall.**

A fydd y newidiadau hyn yn berthnasol i bob rhiant unigol?

Ni fydd y newidiadau hyn yn berthnasol i chi os oes gennych hawl i gael Cymhorthdal Incwm am **resymau eraill**. Er enghraifft:

- os oes gennych blant sydd â hawl i gyfradd ganol neu gyfradd uchaf elfen ofal y Lwfans Byw i'r Anabl
- os ydych yn cael Lwfans Gofalwr, neu
- os oes gennych blentyn maeth yn byw gyda chi.

Gall fod rhesymau eraill pam na fydd y newidiadau hyn yn berthnasol i chi. Os nad ydych yn siŵr, gofynnwch i'ch ymgynghorydd.

Pryd daw fy nhaliadau Cymhorthdal Incwm i ben?

Oedran y plentyn ieuengaf	**Pryd y daw eich cymhorthdal incwm i ben**
Plentyn ieuengaf yn 9 oed neu'n hŷn **ar 25 Hydref 2010 neu cyn hynny**	Ar gyfer y rhieni unigol presennol y mae eu plentyn ieuengaf eisoes yn 9 oed ar 24 Hydref 2010, daw'r hawl i gael Cymhorthdal Incwm i ben o ddiwrnod cyntaf yr wythnos budd-dal y bydd y Cyfweliad sy'n Canolbwyntio ar Waith nesaf wedi trefnu ar ei chyfer neu ar ôl 25 Hydref 2010.
Plentyn ieuengaf yn cyrraedd 9 oed **ar 25 Hydref 2010 neu ar ôl hynny**	Ar gyfer y rhieni unigol presennol y mae eu plentyn ieuengaf eisoes yn 8 oed ar 25 Hydref 2009 ond sy'n cyrraedd 9 oed ar 25 Hydref 2010 neu ar ôl hynny, daw Cymhorthdal Incwm i ben ar y diwrnod y telir Cymhorthdal Incwm ar ôl y dyddiad y bydd y plentyn yn cyrraedd 9 oed.

Dalen Ffeithiau 1 – Newidiadau cyffredinol i Gymhorthdal Incwm ar gyfer rhieni unigol o fis Hydref 2010

Plentyn ieuengaf yn 7 oed **ar 2 Ionawr 2011 neu cyn hynny**	Ar gyfer y rhieni unigol presennol y mae eu plentyn ieuengaf eisoes yn 6 oed ar 25 Hydref 2009 neu'n cyrraedd 7 oed ar 2 Ionawr 2011 neu cyn hynny, daw'r hawl i gael Cymhorthdal Incwm i ben o ddiwrnod cyntaf yr wythnos budd-dal y bydd y Cyfweliad sy'n Canolbwyntio ar Waith nesaf wedi trefnu ar ei chyfer neu ar ôl 3 Ionawr 2011.
Plentyn ieuengaf yn cyrraedd 7 oed **ar 3 Ionawr 2011 neu ar ôl hynny**	Ar gyfer y rhieni unigol presennol y mae eu plentyn ieuengaf eisoes yn 6 oed ar 25 Hydref 2009 ond sy'n cyrraedd 7 oed ar 3 Ionawr 2011 neu ar ôl hynny, daw Cymhorthdal Incwm i ben ar y diwrnod y telir Cymhorthdal Incwm ar ôl y dyddiad y bydd y plentyn yn cyrraedd 7 oed.

Os oeddech eisoes yn fyfyriwr llawn amser ar 25 Hydref 2010 neu ar gwrs neu hyfforddiant llawn amser fel rhan o'r Fargen Newydd ar gyfer Rhieni Unigol neu rywbeth tebyg, gallech barhau i gael Cymhorthdal Incwm. Bydd eich ymgynghorydd yn gallu dweud mwy wrthych.

Sut byddwch yn rhoi gwybod i mi pryd y daw fy nhaliadau i ben?

Byddwn yn cysylltu â chi 8 wythnos cyn y daw eich Cymhorthdal Incwm i ben i ddweud wrthych pryd y cewch eich taliad olaf.

Pa fudd-daliadau eraill y byddaf yn gallu eu hawlio?

Os nad ydych wedi dod o hyd i waith â thâl neu os na allwch weithio pan ddaw eich Cymhorthdal Incwm i ben, byddwch yn gallu gwneud cais naill ai am Lwfans Ceisio Gwaith neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.

- Lwfans Ceisio Gwaith yw'r prif fudd-dal ar gyfer pobl sydd allan o waith. Er mwyn ei gael, mae'n rhaid i chi fod ar gael i weithio ac wrthi'n chwilio am waith. Fel rhiant unigol, â phlentyn ieuengaf 12 oed neu'n iau, mae gennych yr hawl i gyfyngu ar yr oriau rydych ar gael i weithio yn cyd-weddu i oriau ysgol arferol. Bydd eich ymgynghorydd yn dweud mwy wrthych.
- Mae'r Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn helpu pobl gydag anabledd neu gyflwr iechyd i symud i mewn i waith. Efallai y cewch Lwfans Cyflogaeth a Chymorth os bydd eich anabledd neu gyflwr iechyd yn effeithio ar eich gallu i weithio.

A fydd yn effeithio ar fy Mudd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor?

Dylai eich Budd-dal Tai a'ch Budd-dal Treth Cyngor barhau'n ddi-dor os symudwch i Lwfans Ceisio Gwaith neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth. Byddwn yn dweud wrth y cyngor, ar eich rhan, am unrhyw newidiadau i'ch ceisiadau am fudd-dal.

Pa help fydd y Ganolfan Byd Gwaith yn ei roi i mi i ddod o hyd i waith?

Gall eich ymgynghorydd eich helpu gyda chyngor ar ddod o hyd i swydd, hyfforddiant a gofal plant yn lleol, gan gynnwys help ychwanegol drwy'r Fargen Newydd ar gyfer Rhieni Unigol. Pan fyddwch yn dechrau gweithio, byddant yn eich cefnogi am 6 mis a'ch helpu i wneud cais am ddewis eang o gymorth ariannol.

Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth?

I gael gwybod mwy am symud i mewn i waith neu hyfforddiant, gallwch:

- ymweld â www.directgov.uk/cy
- trefnu apwyntiad gydag ymgynghorydd yn eich Canolfan Gwaith agosaf.

canolfanbydgwaith

Rhan o'r Adran Gwaith a Phensiynau